



cwmni **Egino**

Mae Cwmni Eginio yn gwahodd mynegiannau o ddiddordeb i gymryd rhan mewn proses ymgysylltu â'r farchnad. Rydym yn awyddus i ymgysylltu â darparwyr technoleg – neu gwmnïau sy'n gysylltiedig â darparwr technoleg – yn ogystal â datblygwyr, trwyddedeion a chyllidwyr posibl, sy'n rhannu ein gweledigaeth ar gyfer datblygiad niwclear bychan cyntaf y DU.

# Cwmni Eginio

Sefydlwyd Cwmni Eginio gan Lywodraeth Cymru yn 2021 er mwyn creu cyfleoedd gwaith cynaliadwy a hyrwyddo adfywiad economaidd a chymdeithasol trwy hwyluso datblygiad ar safle'r orsaf bŵer niwclear yn Nhrawsfynydd. Ein gweledigaeth yw i Drawsfynydd fod y lleoliad cyntaf yn y DU ar gyfer datblygiad niwclear bychan, gyda'r nod o gychwyn adeiladu erbyn 2027 (y 'Prosiect').

Mae gennym raglen dri cham i gyflawni ein gweledigaeth:

1. diffinio'r cynnig busnes ar gyfer datblygiad niwclear bychan yn Nhrawsfynydd a profi ei fod yn ddichonadwy a bod modd ei ddelifro;
2. datblygiad cychwynnol y prosiect, yn cynnwys astudiaethau safle a'r amgylchedd, datblygiad perianyddol a pharatoi ceisiadau cynllunio; a
3. cyflwyno ceisiadau cynllunio, caffael, datblygu contractau refeniw a chyllid.

Ein prif nod strategol yw bod yn un o'r prosiectau niwclear newydd i gael eu dewis yn ystod y Senedd nesaf (2024-2029). Er mwyn cyflawni'r nod hwnnw, ein bwriad yw cwblhau Cam 1 a bod yn barod i gychwyn Cam 2 erbyn diwedd Mawrth 2023.



## Ymgysylltu â'r farchnad

Rydym yn cynnal proses ymgysylltu â sefydliadau sydd gyda diddordeb er mwyn adnabod opsiynau sy'n cwrdd â'n gweledigaeth, diffinio ein anghenion, a chefnogi cynnig busnes dichonadwy ar gyfer y Prosiect. Bydd hyn yn ein galluogi i symud ymlaen i ail gam y datblygiad, ac yn helpu gydag unrhyw strategaeth gaffael yn y dyfodol.

Rydym ar hyn o bryd yn datblygu holiadur llawn ar gyfer yr ymgysylltiad â'r farchnad. Mae'r meysydd o ddiddordeb yn debygol o gynnwys y canlynol:

- Pa mor barod yw'r dechnoleg, yn cynnwys statws y broses ddylunio a thrwyddedu
- Model delifro, yn cynnwys partneriaid allweddol
- Rôl(au) a ragwelir o fewn y model gweithredu ar gyfer Trawsfynydd a phrofiad blaenorol o gyflawni'r rolau hynny
- Buddion cymdeithasol-economaidd, yn cynnwys datblygiad y gadwyn gyflenwi a'r gweithlu
- Cynllun ariannu ar gyfer dylunio a thrwyddedu
- Y gallu i ddennu buddsoddiad ar gyfer datblygiad niwclear bychan yn Nhrawsfynydd
- Y gallu i sicrhau Penderfyniad Buddsoddi Terfynol a chychwyn adeiladu erbyn 2027

## Sut i gofrestru

I gofrestru, cwblhewch y ffurflen mynegi diddordeb ebryn 5pm ar y 5ed o Awst 2022.

Cliciwch [yma](#) am linc i'r ffurflen.

Bwriedir dosbarthu pecyn gwybodaeth a holiadur i sefydliadau sydd â diddordeb erbyn diwedd Awst 2022. Bydd gwahoddiad i'r rhai sy'n cymryd rhan fynychu gweithdai rhyngweithiol gyda Chwmni Eginio.

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, anfonwch ebost at [gwybodaeth@cwmniegino.wales](mailto:gwybodaeth@cwmniegino.wales)

*Noder:*

*(i) nid yw hyn yn alwad am gystadleuaeth, ac nid yw Cwmni Eginio yn gwarantu y bydd galwad am gystadleuaeth yn digwydd o ganlyniad i ymgysylltu â'r farchnad.*

*(ii) Ni fydd Cwmni Eginio yn ad-dalu, nac yn gyfrifol am unrhyw gostau, taliadau na threuliau i sefydliadau yn gysylltiedig ag ymateb i a/neu gymryd rhan yn y broses ymgysylltu.*

cwmni **Eginio**



Ariennir gan  
Lywodraeth Cymru  
Funded by  
Welsh Government